Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 8fed Tachwedd yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Cyng Hugh Towns, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Dawn Wallace, Cyng Edward Thomas, Cyng Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Ros Bellamy, Cyng Fran Murphy, Des Davies (Swyddog Technegol) Roger Phillips Clerc y Dref.

Ymddiheuriadau Cyng Roy Davies

Cof 106 / Tach /06 Ceisiadau Cynllunio i'w Hystyried

E/14505 Newid defnydd o A1 i A3 (Siop Gwerthu Prydau Bwyd Poeth). Oriau Agor 11-24.00, 7 niwrnod yr wythnos yn 87, Heol Rhosmaen.
Sylw : Dim gwrthwynebiad mewn egwyddor. Er tegwch i fusnesau tebyg oddi amgylch dylid cyfyngu ar yr oriau er mwyn bod yn gyson. Mae angen ystyried materion yn ymwneud â diogelwch ffordd.

E/14601 I barhau â datblygiad a gychwynnwyd trwy beidio â chydymffurfio â chaniatâd cynllunio E 09823 dyddiedig 14.7.05 ar gyfer datblygiad preswyl – ail leoli tŷ a garej.
Plot 57, Parc Pencrug.
Sylw : Dim sylwadau.

E/ 14602 Penderfyniad amaethyddol, trac/ffordd arfaethedig yn Dynevor Home Farm
Sylw : Dim sylwadau.

E/ 14647 Estyniad un llawr fel ystafell haul
2, Heol Clarence
Sylw : Dim sylwadau heblaw eu bod yn hapus fod y gwaith yn cael ei wneud mewn modd sympathetig.

Cof 107 / Tachwedd / 06 Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio.

Cymeradwywyd y ceisiadau canlynol gan Bwyllgor Cynllunio CSC

E/12695 Addasu adeilad fferm traddodiadol yn un uned breswyl
Llwyn Helyg (adeilad rhestredig)

E/12694 Addasu adeilad fferm traddodiadol sy'n segur yn un uned breswyl yn Llwyn Helyg.

E/14114 Ystafell wydr ac estyniad arfaethedig yn yr Hydd Gwyn, Heol Caerfyrddin.

Cof 108 / Tachwedd / 06 Trafnidiaeth a Phriffyrdd

1. Adeiladau'r Banc.
Hyd yn hyn does yna ddim atebion wedi dod mewn perthynas â chynigion y Cyng Hugh Towns.

Argymhellwyd bod llythyr yn cael ei anfon at Trevor Sage yn gofyn pam nad oes llinellau melyn wedi'u rhoi ar y ffordd wrth y gyffordd rhwng Maes Mwyn a Heol Alan a'r A483.

Cof 109 / Tachwedd / 06 Goleuadau

Nid yw'r goleuadau y tu allan i 1, Teras Wellfield a thu allan i 45, Heol y Garreg Las yn gweithio. Mae'r Swyddog Technegol wedi adrodd am hyn.

Cof 110 / Tachwedd / 06 Adroddiad Llwybrau Troed.

1. Dywedodd Mr Des Davies ei bod bron yn amhosib cerdded ar hyd llwybr troed Glynceirch. Mae'r Clerc wedi derbyn gohebiaeth oddi wrth Caroline Ferguson mewn perthynas â'r llwybr troed yn nodi y bydd yn gwneud ymholiadau i'r posibilrwydd o wyro'r llwybr. Mae wedi siarad â'r perchennog tir mewn perthynas â phryder y Cyngor ynghylch y rheilins. Adroddodd Mr Davies i CSC bod damwain wedi digwydd ar y bont siglo.
2. Argymhellodd y Cyng Richard Wallace y dylai'r Swyddog Technegol gael ffôn symudol oherwydd materion Iechyd a Diogelwch. Cytunwyd y dylai Adolygiad o Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch fod yn eitem agenda yng nghyfarfod nesa o'r Cyngor Llawn.

Cof 111 /Tachwedd / 06 Gohebiaeth

1. Llythyr oddi wrth Heddlu Dyfed Powys yn gofyn i'r Heddlu nodi tair blaenoriaeth ar gyfer cynllun plismona'r flwyddyn nesa 2006-7. Cytunwyd ar y canlynol fel ymateb y Cyngor :-

i) Plismona troseddau traffig e.e. rhwystro, parcio ar linellau igam ogam, gor yrru.
ii) Ymddygiad gwrth gymdeithasol
iii) Yfed o dan oed mewn parciau cyhoeddus a mannau cyhoeddus.

2. E bost gan Wyn Evans mewn perthynas â sylwadau yn y papur newydd. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Hugh Towns fod y Clerc yn ysgrifennu at Mr Evans yn mynegi fod y Cyngor yn rhannu ei bryderon ynghylch y diffyg cyfathrebu mewn perthynas â'r ffordd osgoi, ond cyn gynted ag y bydd y cyngor yn derbyn gwybodaeth ddibynadwy yna bydd yn ei rhannu gyda'r cyhoedd.

3. Grŵp Gweithredu Mynydd Llansadwrn. Fferm wynt arfaethedig. Mae y tu allan i'n hardal. Nodwyd.

Cof 112 / Tachwedd/ 06 Unrhyw eitemau eraill o fusnes i'w trafod oherwydd amgylchiadau arbennig

Dymunai'r Cyng Colin Jenkins gofnodi diolch i bawb am eu cymorth gyda'r arddangosfa tân gwyllt.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 pm.